**Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Gorchymyn uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2024.

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
21 Mai 2024

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2024 ("y Gorchymyn") yn diweddaru'r rhestr o awdurdodau Cymreig datganoledig yn Atodlen 9A (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

1.2 Mae'r Gorchymyn yn dileu'r cyfeiriad at "Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru" ac yn mewnosod cyfeiriad at y “Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil”.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

2.1 Mae'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU, ac felly mae'r Gorchymyn drafft yn cael ei osod yn Saesneg yn unig.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 157A(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y gall Ei Fawrhydi drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ddiwygio Atodlen 9A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

(a) er mwyn dileu neu ddiwygio cofnod, neu
(b) er mwyn ychwanegu neu newid awdurdod cyhoeddus y mae ei swyddogaethau—
(i) yn arferadwy yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn perthynas â Chymru, a
(ii) yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl.

3.2 Mae adran 157A(6) yn darparu na ellir gwneud unrhyw argymhelliad i'w Fawrhydi yn y Cyfrin Gyngor i wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 157A oni bai bod drafft o'r offeryn statudol, sy'n cynnwys y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, wedi'i osod gerbron dau Dŷ Senedd y DU a Senedd Cymru, a'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad. Mae adran 157A(7) yn nodi nad yw is-adran (6) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sydd ond yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

(a) hepgor cofnod lle mae'r awdurdod dan sylw wedi peidio â bodoli, neu
(b) amrywio cofnod o ganlyniad i newid enw neu drosglwyddo swyddogaethau.

3.3 Sefydlodd adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ('Deddf 2022"), fel y'i cychwynnwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 1) 2022, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") ar 15 Rhagfyr 2022. Mae adran 23 o Ddeddf 2022 yn darparu ar gyfer diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC") a bydd yn cael ei chychwyn pan fydd y Comisiwn yn dod yn weithredol, ar 1 Awst 2024.

3.4 Mae'r Gorchymyn hwn yn dilyn y weithdrefn ar gyfer diwygiadau i Atodlen 9A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a nodir yn adran 157A(5) a (6) o'r Ddeddf honno, a bydd yn cael ei osod gerbron dau Dŷ Senedd y DU a Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad. Er bod y Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer hepgor corff sydd wedi peidio â bodoli (CCAUC), nid yw adran 157A(7) yn gymwys. Mae'r Comisiwn yn gorff cwbl newydd sydd â chylch gwaith ehangach, ac felly nid ailenwi neu drosglwyddo swyddogaethau yn syml yw hwn.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Mae adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn diffinio "awdurdod Cymreig datganoledig" at ddibenion y Ddeddf honno. Mae hyn yn cynnwys awdurdod cyhoeddus y mae ei swyddogaethau:

(a) yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig, a
(b) yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl.

4.2 Mae awdurdodau cyhoeddus hefyd yn awdurdodau Cymreig datganoledig yn rhinwedd cael eu henwi yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cyflawni rôl rhannol gadarnhaol i gynyddu tryloywder drwy enwi awdurdodau sy'n bodloni'r amodau a amlinellir uchod.

4.3 Mae Atodlen 9A ar hyn o bryd yn cynnwys cyfeiriad at "Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru".

4.4 Pan ddaw'n weithredol bydd y Comisiwn yn arfer swyddogaethau tebyg i'r rhai a gyflawnwyd yn flaenorol gan CCAUC, ynghyd â rhai swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r Gorchymyn hwn yn ofynnol i ddiweddaru'r rhestr o awdurdodau Cymreig datganoledig yn unol â hynny.

**5. Ymgynghori**

5.1 Gan fod y Gorchymyn yn gwneud diwygiad canlyniadol i ddiweddaru rhestr o awdurdodau Cymreig datganoledig ac nad yw felly'n gwneud unrhyw newidiadau pellach i bolisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Mae'r dull gweithredu hwn yn unol ag arferion safonol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth ddrafft.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, fe wnaeth yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â Deddf 2022 adeg ei chyflwyno i'r Senedd, asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Comisiwn.